Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad o weithrediad Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

Gorffennaf 2016

# Adolygiad o weithrediad Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

## Cynulleidfa
Uwch reolwyr a llywodraethwyr sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

## Trosolwg
Adolygiad o weithrediad y Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014.

## Camau i'w cymryd
Dim – er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Mike Shore
Sgilau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
Cymru
LL31 9RZ
Ffôn: 0300 062 5606
e-bost: Mike.Shore@cymru.gsi.gov.uk

## Copïau ychwanegol
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasgiliau

## Dogfennau cysylltiedig
Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG29383 ISBN digidol 978 1 4734 7145 0

# Cynnwys


Y cyd-destun 1

Rhagarweiniad 1

Diben y Ddeddf 1

Cefndir 2

Ymgynghori 3

Adolygiad o effaith y Ddeddf 4

Effaith ar gyllid 5

Effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg 8

Effaith ar y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 9

Casgliad 11

Atodiad 1 13

# 1. Y cyd-destun

Cafodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014[1] ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2013 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o'i heffaith erbyn 31 Gorffennaf 2016, gan ganolbwyntio ar ddarpariaethau penodol a amlinellwyd yn y testun.

Dyfyniad o'r Ddeddf: Adran 10: Adolygiad o weithrediad y Ddeddf

'Rhaid i Weinidogion Cymru, heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf 2016, adolygu gweithrediad y Ddeddf hon gyda'r bwriad yn benodol o asesu ei heffaith ar

(a) ariannu addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond sydd heb gyrraedd 19 oed,
(b) y ddarpariaeth Gymraeg mewn sefydliadau o'r fath,
(c) y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol mewn sefydliadau o'r fath'.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni'r dyletswyddau a roddwyd ar Weinidogion Cymru i adolygu effaith y Ddeddf ar yr elfennau a restrir uchod.

# 2. Rhagarweiniad

### Diben y Ddeddf

Cyflwynwyd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 (Deddf 2014) i roi rhagor o annibyniaeth i sefydliadau Addysg Bellach (AB) yng Nghymru a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau. Gwnaeth y Ddeddf addasu a chael gwared ar y rheolaethau deddfwriaethol a oedd ar gorfforaethau addysg bellach er mwyn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros eu trefniadau llywodraethu a'u trefniadau diddymu, gan gydnabod mai'r sector sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut y dylid diwallu anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau lleol. Nid oedd hyn yn newid prif bwerau sefydliadau AB i ddarparu addysg bellach, addysg uwch ac (o fewn rhai cyfyngiadau) addysg uwchradd.

Mae sefydliadau AB yn parhau i fod yn destun amryw o safonau ac archwiliadau ariannol a chyfrifeg Llywodraeth Cymru, ynghyd â gofynion contract, y fframwaith ansawdd ac effeithiolrwydd ac arolygiadau gan Estyn.

Roedd y Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth ar wahân ar gyfer y sector addysg uwch er mwyn i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) allu rhannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru (a'r rheini y maent wedi dirprwyo neu drosglwyddo

[1] *legislation.data.gov.uk/anaw/2014/1/enacted/data.html*

swyddogaethau iddynt) mewn perthynas ag asesu cymhwysedd am grantiau a benthyciadau myfyrwyr, drwy ddiwygio adran 24 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

## 3. Cefndir

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, (Deddf 1992), mae sefydliadau AB yng Nghymru yn gorfforaethau statudol sy'n gyfrifol am eu trefniadau llywodraeth eu hunain ynghyd â'u systemau cyllid, ystadau ac adnoddau dynol a'u portffolios cwricwlwm. Ers 2006, mae Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru (AdAS, APADGOS gynt) wedi ariannu pob sefydliad AB yng Nghymru yn uniongyrchol, gan ddarparu iddynt eu prif ffynhonnell o incwm. Fodd bynnag, ers Deddf 1992, mae sefydliadau AB hefyd wedi gallu cynhyrchu eu hincwm eu hunain drwy fuddsoddiadau a gweithgareddau masnachol ar ôl cael caniatâd Gweinidogion Cymru'n gyntaf.

Gwnaeth Deddf 2014 gael gwared ar y gofyniad i sefydliadau AB yng Nghymru gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn gallu benthyca arian, creu neu fuddsoddi mewn cwmni, neu ddod yn aelod o sefydliad corfforedig elusennol at ddibenion cynnal sefydliad addysgol.

Un ystyriaeth allweddol ac oedd yn sail i'r darpariaethau AB sydd yn Neddf 2014 oedd y penderfyniad a wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i ailddosbarthu sefydliadau AB fel rhan o'r llywodraeth ganolog at ddibenion Cyfrifon Gwladol. Ar yr adeg y cawsant eu sefydlu (Ebrill 1993), cafodd sefydliadau AB eu dosbarthu at ddibenion Cyfrifon Gwladol fel Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd (NPISH). Yng nghyd-destun y cyfrifon gwladol, mae NPISH yn rhan o'r sector breifat ac mae hynny'n golygu nad oes angen i gyfrifon colegau gael eu cydgrynhoi o fewn cyfrifon y llywodraeth.

Yn 2010, cyhoeddodd yr ONS eu bwriad i ailddosbarthu sefydliadau AB yng Nghymru a Lloegr a rhoi yn y sector addysg cyffredinol, gan nodi eu bod wedi'u dosbarthu'n anghywir ers iddynt gael eu sefydlu ym 1993. Penderfynodd yr ONS fod rheolaethau'r sector cyhoeddus dros y sefydliadau hyn yn ddigonol i bennu bod y sector cyhoeddus yn rheoli eu polisi corfforaethol.

Cynigiodd Llywodraeth Cymru newidiadau i bedwar maes allweddol er mwyn helpu i roi mwy o gyfrifoldeb i'r sefydliadau AB fel eu bod yn gallu rheoli eu materion eu hunain, sef:

- Mwy o bwerau i sefydliadau AB er mwyn iddynt allu gwneud newidiadau i'w Hofferyn ac Erthyglau Llywodraethu
- Y gallu i golegau ddiddymu eu hunain
- Mwy o ryddid i sefydliadau AB fenthyca arian

- Llai o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru.

Yn yr wybodaeth gefndirol sy'n ategu'r Bil, cydnabu Llywodraeth Cymru aeddfedrwydd y sector Addysg Bellach yng Nghymru, gan ddod i'r casgliad bod y sector 'yn y sefyllfa orau i benderfynu sut y dylai anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau lleol gael eu diwallu'. Amcan polisi Llywodraeth Cymru oedd rhoi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i sefydliadau AB wneud penderfyniadau ynghylch y dysgu a ddarperir ganddynt i ddiwallu'r anghenion hynny, ond bod angen cydbwyso'r newidiadau a gynigwyd a'r angen i ddiogelu cyllid cyhoeddus, buddiannau'r cyhoedd a dysgwyr.

Roedd Deddf 2014 yn ceisio gwrthdroi dosbarthiad yr ONS ac ailosod statws sefydliadau AB yng Nghymru i NPISH. Ar ôl ystyried y newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf 2014, daeth yr ONS i'r casgliad bod y newidiadau'n ddigonol i ddileu'r rheolaethau ar sefydliadau AB, ac felly cafodd y sefydliadau hynny eu hailddosbarthu o 27 Ionawr 2015 ymlaen.

Roedd penderfyniad yr ONS yn cynnwys un cafeat: y byddai Gweinidogion Cymru yn cymryd yr awenau os byddai sefydliad yn methu ac nad oedd darpar bartner ar gael ar gyfer uno.

# 4. Ymgynghori

Fel rhan o'r broses o ddatblygu is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 2014, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru a'r sector addysg bellach a'r gymuned ehangach. Wedyn, defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i lunio'r rheoliadau drafft cyn eu cwblhau'n derfynol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ddechrau haf 2014 a daeth yr is-ddeddfwriaeth i rym ym mis Medi'r flwyddyn honno.

O ran yr ymgynghori ar gyfer yr adolygiad hwn, mae effaith y Ddeddf wedi'i chynnwys fel eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd a drefnwyd gydag uwch-reolwyr cwricwlwm a chyllid sefydliadau AB i gasglu adborth ar faterion cynllunio ac ariannol. Gwnaeth eu hadborth anecdotaidd awgrymu nad yw'r Ddeddf wedi cael effaith amlwg ar y ddarpariaeth yn y tri maes a nodwyd ar gyfer yr adolygiad; mae'r rhyddid a roddwyd gan ddarpariaethau'r Ddeddf yn gysylltiedig â materion llywodraethu'n bennaf. Mae rhyddhau llywodraethwyr i lywodraethu a nodi'n glir bod eu rôl yn wahanol i rôl reoli, wedi annog cyrff llywodraethu i ystyried arbedion amserol er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu sefydliadau mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol. Mae hyn wedi helpu i wneud iawn am unrhyw effaith bosibl ar y tri maes o ddarpariaeth 'wedi'u diogelu' y nodwyd bod angen eu hadolygu.

Yn ogystal, casglwyd adborth o gyfarfod chwarterol diweddar y Clercod/Swyddogion Llywodraethu a hwylusir gan Colegau Cymru, y corff sy'n cynrychioli sefydliadau AB

yng Nghymru. Mae llawer yn mynychu'r cyfarfodydd hyn ac felly maent yn gyfrwng dibynadwy i fonitro datblygiadau yn y sector AB yng Nghymru. Yn unol a'r adborth gan uwch-reolwyr y colegau, y farn gyffredin oedd bod y tri maes a nodwyd ar gyfer yr adolygiad yn Adran 10(1) o'r Ddeddf wedi'u diogelu'n ddigonol gan bolisi presennol y llywodraeth i wneud iawn am unrhyw effaith y galli'r darpariaethau'r Ddeddf ei chael.

Ystyriwyd hefyd gwybodaeth o Gofnod Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru (LLWR) a data ar Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol ar wefan StatsCymru[2]; ynghyd â data ynghylch darpariaeth ddysgu a gyflwynwyd drwy'r fframwaith cynllunio a chyllido.

## 5. Adolygiad o effaith y Ddeddf

Mae Adran 10 o Ddeddf 2014 yn gofyn bod Gweinidogion Cymru yn adolygu gweithrediad y Ddeddf erbyn 31 Gorffennaf 2016 fan bellaf. Rhaid i'r adolygiad ystyried yn benodol effaith y Ddeddf ar:

(a) ariannu addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond sydd heb gyrraedd 19 oed,[3]

(b) y ddarpariaeth Gymraeg mewn sefydliadau o'r fath (yn ehangach nag addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys er enghraifft y ddarpariaeth o wersi Cymraeg i fyfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg),

(c) y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol mewn sefydliadau o'r fath.

Dyfyniadau o'r Asesiadau Effaith a gynhaliwyd cyn gosod y Bil:

<u>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:</u>

- Mae'n ofynnol bod gan Sefydliadau Addysg Bellach bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u bod yn gallu dangos, drwy hunanasesu a thystiolaeth ategol, eu bod yn gweithredu'r polisïau, yn monitro ac yn cefnogi cyfranogiad gan grwpiau lleiafrifol, ac yn gwerthuso eu hymatebolrwydd eu hunain.

- Mae amcanion polisi'r Bil yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw risg y bydd y Bil yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg gan ei fod yn ymwneud â fframwaith llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Mae'n ofynnol i bob Sefydliad

[2] *http://gov.wales/statistics-and-research/*
[3] *Yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth statudol a osodwyd ar Weinidogion Cymru drwy adran 31 o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau*

Addysg Bellach yng Nghymru gael Polisi Iaith Gymraeg ac ni fydd hyn yn newid o dan y Bil.

Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

- Mae amcanion polisi'r Bil yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Nid oedd unrhyw risg y byddai'r Bil yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg gan ei fod yn ymwneud â fframwaith llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru.

- Mae'n ofynnol i bob Sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru gael polisi iaith Gymraeg ac nid yw hyn wedi newid ers i'r Bil gael ei basio.

- Diben y cynigion ar gyfer y Bil oedd rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau; mae pob un ohonynt yn endid cyfreithiol ar wahân, ac ni fyddent yn cael unrhyw effaith ar yr amcan strategol yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru sef cynyddu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a hyfforddiant.

**(a) Effaith ar gyllid**

Y ddeddfwriaeth allweddol mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, sy'n darparu pwerau ar gyfer cynllunio a chyllido addysg ôl-16. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyffredinol o dan y Ddeddf hon i sicrhau cyfleusterau priodol (i ddysgwyr rhwng 16-19 oed) a chyfleusterau rhesymol (i ddysgwyr dros 19 oed) ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Ym mis Mai 2014, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r trefniadau cynllunio a chyllido ôl-16. Roedd yr adroddiad yn amlinellu sut y byddai fframwaith newydd a symlech yn gweithio, drwy ddyrannu cyllid ar gyfer meysydd rhaglen penodol yn hytrach na chymwysterau.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, gwnaeth yr Adran Addysg a Sgiliau gyflwyno fframwaith newydd yn canolbwyntio ar ansawdd y cynnig dysgu o ran y canlyniad i ddysgwyr unigol. Mae gan bob rhaglen ddiben a chanlyniad penodol y gellid eu monitro, a rhaglenni cymwys yn unig sydd wedi'u hariannu ers dechrau blwyddyn academaidd 2014/15.

Effaith y toriadau cyllid: nid yw cyllid ar gyfer addysg bellach yn faes sydd wedi'i ddiogelu o ran gwariant y llywodraeth yng Nghymru a gwelwyd gostyngiadau yn y

cyllid hwn yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2012-13, gwariodd Llywodraeth Cymru oddeutu £450 miliwn ar addysg bellach - £330 miliwn drwy sefydliadau AB, £113 miliwn drwy chweched dosbarth awdurdodau lleol, a £7 miliwn drwy gynlluniau cymunedol a chynlluniau eraill. Erbyn 2015-16, roedd cyfanswm y cyllid wedi lleihau i £400 miliwn.[4]

Mae toriadau diweddar i'r cyllid a'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr wedi arwain at sefyllfa argyfyngus i'r ddarpariaeth AB. Cafodd y sefyllfa yng Nghymru ei leddfu rhywfaint ar ôl i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei hagenda ar gyfer trawsnewid addysg ôl-16 yn 2008. Nod yr agenda hon oedd cryfhau'r rheolaeth strategol, gwella effeithlonrwydd a bodloni'r galw presennol ac yn y dyfodol am addysg a hyfforddiant perthnasol o ansawdd uchel drwy uno/ffederaleiddio ac ati.[5]

Ar gyfer 2015-16, roedd y dyraniad cyllideb ar gyfer AB Ôl-16 £14.142 miliwn yn llai. Yn sgil hyn, penderfynwyd lleihau'r holl ddarpariaeth ôl-16 a ariennir 2.6%. Yn ogystal, bu'n rhaid haneru'r holl ddarpariaeth ran-amser (ac eithrio Addysg Sylfaenol i Oedolion (ABE), Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), a darpariaeth arwahanol i ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol). Mae'r dyraniadau ar gyfer 2016/17 wedi'u cadw ar yr un lefel â 2015/16 ond gyda chynnydd bach o 2 y cant i'r gyfradd uned.

Dechreuodd sefydliadau AB weithredu'r fframwaith newydd o raglenni dysgu o fis Medi 2014. Mae'r cylch cynllunio'n dechrau drwy anfon llythyrau at sefydliadau AB ac Awdurdodau Lleol ynghylch blaenoriaethau'r Gweinidog [6]

Roedd y llythyr blynyddol mwyaf diweddar at yr holl Brifathrawon a Phrif Weithredwyr yn y sector AB oddi wrth y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn tynnu sylw at rai blaenoriaethau penodol ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 a osodwyd 'yng nghyd-destun yr Agenda Sgiliau, sef swyddi a thwf, cynaliadwyedd ariannol, cydraddoldeb a thegwch a meincnodi sgiliau rhyngwladol'. Fodd bynnag, mae'r llythyr hefyd yn cydnabod y bydd gofyn i'r sector weithredu'n strategol ac ar y cyd er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael mewn cyfnod economaidd anodd, ac yn sôn bod gostyngiadau pellach mewn cyllid cyhoeddus yn debygol dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r flaenoriaeth gyntaf a ddisgrifir yn y llythyr yn cyfeirio at 'Swyddi a Thwf' ac yn sôn am bwysigrwydd ymgysylltu â chyflogwyr a menter, a'r arbenigeddau'r sector sydd wedi'u datblygu gan sawl sefydliad AB. Mae'r ail flaenoriaeth yn cyfeirio at gynaliadwyedd ariannol ac yn gysylltiedig â'r Datganiad Polisi ar Sgiliau a gyhoeddwyd yn 2014 a'r Cynllun Gweithredu Sgiliau sy'n ei ategu, a luniwyd i flaenoriaethu cyllid ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 24 oed a sicrhau cefnogaeth barhaus ar gyfer Prentisiaethau Uwch. Gofynnir i sefydliadau AB flaenoriaethu

[4] *senedd.assembly.wales/welsh government budget 2015-16*
[5] *Gweler Atodiad 1; darpariaeth AB yng Nghymru*
[6] *learning.gov.wales/resources/browse.../ministerial-priority-letters-for-2015-to-2016/?*

darpariaeth ar gyfer y cohort dysgu 16-19 yn unol â chyfrifoldebau statudol, sy’n thema gyson.[7]

Mae sefydliadau AB ac Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu cynlluniau cyflenwi ym mis Ebrill. Wedyn mae’r Gangen Cynllunio a Chyllido yn cynnal cyfarfodydd gyda darparwyr i drafod eu cynlluniau a sicrhau bod eu darpariaeth yn cyd-fynd â pholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Y boblogaeth o ddysgwyr: Gwelwyd gostyngiad yn nifer y dysgwyr mewn addysg ôl-16 rhwng 2013/14 a 2014/15. Roedd hyn yn parhau â'r patrwm a welwyd ers y gostyngiad mwyaf yn 2005/06, er bod amrywiadau rhwng sectorau a grwpiau oedran.[8]

Yn 2014/15, roedd 195,700 o ddysgwyr unigryw mewn sefydliadau AB, Dysgu Cymunedol Awdurdod Lleol a Dysgu Seiliedig ar Waith, 12 y cant yn llai na 2013/14. Rhwng 2013/14 a 2014/15, gwelwyd gostyngiad o 12 y cant yn nifer y dysgwyr 20 oed a hŷn mewn sefydliadau AB, a gostyngiad o 7 y cant yn nifer y dysgwyr 19 oed ac iau. Gwnaeth y niferoedd cyffredinol o ddysgwyr mewn sefydliadau AB ostwng 10 y cant a hynny'n bennaf oherwydd bod llai o ddysgwyr mewn dysgu rhan-amser. Roedd 28 y cant o’r dysgwyr dan 19 oed, sef 41,805.[9]

Cofrestriadau 16-19: Mae dau draean o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio mewn colegau AB yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r cofrestriadau (77 y cant) mewn sefydliadau AB ar gyfer cyrsiau rhan-amser. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr (71 y cant) dros 19 oed, a 29% rhwng 16-19 oed.

Wrth asesu a yw'r Ddeddf wedi cael effaith ar y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed, dylid nodi bod gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer (ymhlith pethau eraill) eu haddysg a'u hyfforddiant. Mae'r cynigion ar gyfer cwtogi ar gyllid cyhoeddus dros y ddwy flynedd ers i'r Ddeddf ddod i rym wedi ceisio diogelu'r dysgwyr hynny gymaint â phosibl. Mae’r ffaith bod y gostyngiad canrannol yn nifer y dysgwyr 19 oed mewn sefydliadau AB yn llai nag yn y cohortau oedran eraill yn adlewyrchu hyn. Yn ogystal, mae'r llythyr ynghylch blaenoriaethau'r Gweinidog yn atgoffa colegau o'u cyfrifoldeb statudol i flaenoriaethu darpariaeth ar gyfer dysgwyr 16-19 oed.

[7] *adran 31 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000*
[8] *http://gov.wales/statistics-and-research/?lang=cy*
[9] *http://dera.ioe.ac.uk/25872/1/160323-further-education-work-based-learning-community-learning-2014-15-en.pdf*

Ni wnaeth y darpariaethau yn y Ddeddf arwain at y penderfyniadau ariannu a ddisgrifir; mae Gweinidogion Cymru wedi ceisio diogelu'r cohort 16-19 cyn belled ag y bo modd rhag effaith y toriadau a wnaed mewn mannau eraill.

### (b) Effaith ar y ddarpariaeth Gymraeg

Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru[10] yn amlinellu'r weledigaeth i gynyddu nifer y bobl o bob oed a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. I wireddu'r weledigaeth hon, mae angen i bobl ifanc gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 er mwyn eu defnyddio mewn cyflogaeth yn y dyfodol.

Mae cynyddu nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn allweddol i gyflawni'r nod hwn, ac mae gan y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg dargedau penodol o ran nifer y dysgwyr ôl-16 mewn dysgu seiliedig ar waith sy'n astudio yn Gymraeg.

Roedd y contract newydd ar gyfer dysgu seiliedig ar waith o fis Ebrill 2015 yn cynnwys newidiadau i'r fanyleb er mwyn sicrhau bod dysgu cyfrwng Cymraeg yn cael ei gryfhau ymhellach o fewn y rhaglen. Mae gofyn i ddarparwyr gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg, a gaiff ei diweddaru'n flynyddol, cyn bod y contract yn dechrau. Mae'r cynlluniau'n cynnwys targedau unigol sydd wedyn yn cael eu monitro gan swyddogion.

Ceir targedau cenedlaethol ar gyfer twf yn y Strategaeth, ac ymrwymiad i gefnogi 'twf parhaus mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ym mhob sector ac ystod oedran’. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar wella'r broses o gynllunio darpariaeth i gefnogi addysg Gymraeg, ac yn cynnwys targedau pum mlynedd a deng mlynedd i fonitro cynnydd wrth i'r Strategaeth gael ei rhoi ar waith.

Roedd y sector AB yn darparu 7 y cant o'i weithgareddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog erbyn 2015. O ganlyniad, mae nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn ysgolion, sefydliadau AB a dysgu seiliedig ar waith yn cynyddu, er mai cynnydd araf yw hwn yn achos rhai darparwyr/ardaloedd.

Mae cymorth ar gael o hyd i awdurdodau lleol a sefydliadau er mwyn datblygu darpariaeth, a hynny drwy’r cyllid a ddarperir i'r consortia rhanbarthol; drwy gytundeb Llywodraeth Cymru gyda Sgiliaith[11] sy'n darparu cymorth a hyfforddiant i sefydliadau AB ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog; a drwy Gynllun Sabothol sy'n

[10] *wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf*
[11] *http://sgiliaith.llandrillo.ac.uk/*

darparu hyfforddiant methodoleg ac iaith Gymraeg. Mae Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd Colegau Cymru yn helpu sefydliadau AB gyda'u proses gynllunio ar gyfer Strategaeth Ddwyieithrwydd y sector.

Cafodd yr adroddiad gwerthuso terfynol ar y Strategaeth ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2016. Daeth i'r casgliad bod y prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd wedi llwyddo o ran cefnogi'r broses o gynllunio darpariaeth Gymraeg yn y sector addysg bellach ac wedi arwain at fwy o ffocws ar gefnogi'r Gymraeg mewn sefydliadau AB. Canfu hefyd fod gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi helpu i gyflawni nod y Strategaeth o gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer dysgwyr 14-19.

Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 wedi cynyddu'r dewis o gymwysterau Cymraeg, ac felly'n cefnogi nodau'r Strategaeth. Dengys tystiolaeth fod y galw am gymorth gan Lywodraeth Cymru yn parhau ymhlith ymarferwyr ynghyd â'r angen i gyrff dyfarnu ddarparu cymwysterau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. I gyd-fynd â chyhoeddi gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Mawrth, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau Ddatganiad Ysgrifenedig yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis dilynol.

I gloi, mae'r ddarpariaeth o ran cyrsiau Cymraeg a dwyieithog yn parhau i gynyddu'n raddol mewn sefydliadau AB yng Nghymru yn dilyn cymorth cychwynnol drwy'r cyllid grant ar gyfer Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Mae'n amlwg bod amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r ddarpariaeth Gymraeg mewn sefydliadau AB wedi bod yn hollbwysig o ran diogelu a chynyddu'r ddarpariaeth, ac nad yw'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 wedi cael effaith amlwg arnynt.

**(c) Effaith ar y ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Mae sefydliadau AB yn darparu amrywiaeth o gymorth ar gyfer dysgwyr ag ADY er mwyn iddynt allu dilyn rhaglenni galwedigaethol neu raglenni addysgol cyffredinol ochr yn ochr â'u cyfoedion. Mae gan bob sefydliad ddatganiad anabledd, sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau a'r cyfleusterau y mae'n eu darparu i bobl ag ADY ac yn egluro â phwy i gysylltu i gael rhagor o fanylion.

Y prif ddeddfwriaeth yn ymwneud â dysgwyr ôl-16 yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, sy'n amlinellu'r trefniadau cynllunio a chyllido ar gyfer addysg ôl-16. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn defnyddio'r term 'anawsterau a/neu anableddau dysgu' yn hytrach nag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Yn ôl adran 312(1) o Ddeddf Addysg 1996, mae gan blant Anghenion Addysgol Arbennig 'os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig'.[12] Mae'r trefniadau

[12] *(ALN) in Wales; Mehefin 2015; Michael Dauncey*

ar gyfer anawsterau a/neu anableddau dysgu (neu ADY) dysgwyr ôl-16 yn fater cymhleth sydd wedi bod yn destun adolygu sylweddol.

Mae'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ar anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau AB yn cynnig darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae'n cynnwys darpariaeth arwahanol, ar lefel mynediad neu lefel 1 fel arfer, sy'n helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer gwaith neu symud i gyfleoedd dysgu prif ffrwd, fel rhaglenni galwedigaethol, sy'n eu paratoi ar gyfer gwaith yn eu maes dewisedig. Mae sefydliadau AB hefyd yn darparu cymorth i bobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu i'w helpu i ddilyn rhaglenni galwedigaethol neu raglenni addysgol cyffredinol ochr yn ochr â’u cyfoedion.

Darperir cyllid ar gyfer Cymorth Dysgu Ychwanegol (ALS), yn ychwanegol at brif ddyraniadau cyllid sefydliadau AB, er mwyn helpu i dalu'r costau ychwanegol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Cafodd y sector AB £7,521 miliwn o gyllid wedi'i glustnodi yn 2015/16 er mwyn cefnogi dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae’r cyllid hwn wedi aros ar yr un lefel yn y blynyddoedd diweddar er gwaetha gostyngiad yn y gyllideb gyffredinol ar gyfer dysgu ôl-16.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r sector AB i ddatblygu methodoleg newydd ar gyfer dosbarthu cyllid ADY, gan gyfuno cyllidebau sydd eisoes yn bodoli i greu un ffrwd ariannu i gefnogi dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i sefydliadau AB o ran sut i ddefnyddio eu cyllid, fel bod cymorth yn cael ei dargedu lle bo'i angen fwyaf.

Mae cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn arbennig o bwysig i'r rheini sy'n symud o'r ysgol i goleg. Mae sicrhau bod darpariaeth addas a digonol yn ei lle yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae'r llythyron cylch gwaith blynyddol ar gyfer awdurdodau lleol a sefydliadau AB yn pwysleisio bod angen cydweithio ac ymgysylltu ag ysgolion arbennig a charfannau perthnasol eraill i ehangu mynediad ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

Yn y gyllideb ehangach ar gyfer AB, mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu a'r rheini ar raglenni addysg sylfaenol i oedolion, wedi'i diogelu. Mae hyn wedi sicrhau bod nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyrsiau arwahanol ar gyfer dysgwyr anawsterau a/neu anableddau dysgu wedi aros ar yr un lefel.

Yn sgil polisi Llywodraeth Cymru o ddiogelu'r ddarpariaeth ar gyfer ADY, ni chafodd Deddf 2014 effaith amlwg ar y ddarpariaeth ar gyfer ADY mewn sefydliadau AB yng Nghymru.

# 6. Casgliad

Mae gan Lywodraeth Cymru fecanweithiau cadarn yn eu lles eisoes i ddiogelu'r ddarpariaeth a nodwyd yn adran 10 o Ddeddf 2014 h.y. y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 16-19, Anghenion Dysgu Ychwanegol, a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach.

Teg fyddai dweud bod y sefyllfa sy'n wynebu sefydliadau AB yng Nghymru wedi bod yn heriol iawn yn y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, mae yna rai cyfleoedd - yn enwedig y rheini a gynigir gan Ddeddf 2014 - i arallgyfeirio a datblygu ffrydiau ariannu newydd a chyfle hefyd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy symleiddio. Mae'r sector AB yng Nghymru bellach yn gyfarwydd iawn ag addasu ac ailddiffinio ei hun er mwyn diwallu anghenion economaidd ac addysgol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae ei allu i addasu'n llwyddiannus i unrhyw ofynion newydd yn un o gryfderau'r sector.

Er enghraifft, er bod colegau wedi sôn am doriadau sylweddol i’r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion, a hynny ar gyfer oedolion a dysgwyr rhan-amser yn bennaf, mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn gyffredinol wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r niferoedd sy'n manteisio arni yn tyfu mewn rhai achosion. Fodd bynnag, Hyrwyddwyr y Gymraeg/Dwyieithrwydd a Safonau newydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn, ynghyd â gwaith y Comisiynydd y Gymraeg.

Mae cyfyngiadau ariannol wedi arwain at ddatblygu polisi cyd-fuddsoddi; gofynnwyd i sefydliadau AB ystyried ffrydiau ariannu amgen yn enwedig buddsoddiadau masnachol. O ganlyniad, mae sefydliadau AB, yn gyffredinol, yn lleihau eu dibyniaeth ar gyllid y llywodraeth.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu a fabwysiadwyd gan y weinyddiaeth flaenorol, a'r polisïau a ddatblygwyd yn ei sgil, wedi llwyddo i ddiogelu'r tair elfen a nodwyd ar gyfer yr adolygiad hwn. Maent hefyd wedi helpu i ddatblygu'r ddarpariaeth ôl-16, h.y. mae polisïau'n parhau i ddiogelu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 16-19 oed, yn sicrhau bod y ddarpariaeth Gymraeg wedi'i diogelu ac yn cael ei datblygu, ac yn sicrhau bod dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn dal i gael eu cefnogi fel bod y cyfleoedd gorau ar gael i bob dysgwr yng Nghymru.

Mae cael gwared ar y baich biwrocrataidd a gweinyddol o brosesau llywodraethu a rheoli AB yn golygu bod Deddf 2014 wedi galluogi llywodraethwyr a rheolwyr i ganolbwyntio ar ddiogelu a datblygu'r ddarpariaeth, gan alluogi colegau i benderfynu

sut orau i ddiwallu anghenion eu dysgwyr a’u cymunedau lleol a chyflawni eu cyfrifoldebau i gynnal y ddarpariaeth yn unol â blaenoriaethau'r llywodraeth.

# Atodiad 1

## Y ddarpariaeth Addysg Bellach yng Nghymru

Cafodd Corfforaethau Addysg Bellach eu sefydlu yng Nghymru ym mis Ebrill 1993 gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Roedd y Ddeddf hon hefyd yn cynnwys pŵer i ddynodi darparwyr eraill fel Sefydliadau yn y sector AB. Mae sefydliadau AB yng Nghymru wedi bod drwy gyfnod o newid yn ddiweddar sydd wedi arwain at uno sawl coleg a chreu trefniadau cydweithio a hefyd mabwysiadu dull cyflenwi mwy rhanbarthol. O ganlyniad i hyn, mae nifer y sefydliadau AB wedi lleihau o 25 i 14 dros y blynyddoedd diwethaf, ac unwyd sawl sefydliad AB a AU.

Ar **1 Ebrill 2016**, roedd 14 sefydliad AB yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg a hyfforddiant i fyfyrwyr 16 oed a hŷn. Mae'r sefydliadau hyn ar hyd a lled Cymru ac yn amrywio'n sylweddol o ran eu maint a'u cwmpas, gan adlewyrchu eu lleoliadau gwahanol a'u hanes.

## Corfforaethau AB

- Coleg Penybont
- Coleg Caerdydd a'r Fro (Coleg y Barri wedi uno â Choleg Glan Hafren yn Awst 2011)
- Coleg Gwent (wedi'i greu drwy uno pum coleg, sef Coleg Brynbuga, Coleg Casnewydd, Coleg Cross Keys, Coleg Glyn Ebwy a Choleg Pontypwl)
- Coleg y Cymoedd (yn cynnwys Colegau Pontypridd a Rhondda (1995) a Choleg Aberdâr (2003); a Choleg Ystrad Mynach (Awst 2013)
- Coleg Cambria (Coleg Glannau Dyfrdwy wedi uno â Choleg Llysfasi (Awst 2010) a Choleg Garddwriaeth Cymru (Awst 2009) a Choleg Iâl (Awst 2012)
- Coleg Gŵyr Abertawe (Coleg Abertawe wedi uno â Choleg Gorseinon yn Awst 2010)
- Grŵp Llandrillo Menai (Coleg Llandrillo wedi uno â Choleg Meirion Dwyfor (2010) a Choleg Menai yn Ebrill 2012)
- Grŵp Caste-nedd Port Talbot (wedi'i greu drwy uno Coleg Afan a Choleg Castell-nedd ym 1999, a Choleg Powys yn Awst 2013)
- Coleg Sir Benfro

## Sefydliadau AB dynodedig

- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Cymunedol YMCA/WEA (ar ôl uno WEA y De a WEA y Gogledd a Choleg Harlech (Ionawr 2014), a YMCA (Awst 2015)

- Coleg Sir Gâr (daeth yn rhan o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Awst 2013)
- Coleg Ceredigion (daeth yn rhan o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Ionawr 2014)
- Coleg Merthyr Tudful (daeth i ben fel sefydliad AB pan unodd â Phrifysgol Morgannwg ym Mai 2006 ond daeth yn sefydliad dynodedig yn Awst 2015).